

Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru

Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: Sue Williams/Sue Williams

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Cyfoeth Naturiol Cymru

e-bost/rhif ffôn: 0300 065 3000

sue.williams@naturalresourceswales.gov.uk

Eich cyfeiriad:

Clawddnewydd, Rhuthun, Sir Ddinbych. LL15 2NL

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **17 Ionawr 2014** i:

Claire Habberfield
Y Tîm Deddfwriaeth
Yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Rhadbost NAT 8910
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: CurriculumforWales@cymru.gsi.gov.uk

Ffurfiwyd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar y 1^{af} o Ebrill 2013 gan gyfuno staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC), Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru. Dyma'r corff cyhoeddus mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru, â thua 2,000 o aelodau o staff, cyllideb weithredu o £17 miliwn, ac mae'n rheoli 7% o dir Cymru.

Nod Cyfoeth Naturiol Cymru yw:

“... chwarae rhan ganolog yn gwireddu datblygu cynaliadwy ar gyfer Cymru. Mae hyn yn golygu dod â rheolaeth dros ein hadnoddau naturiol a'n hamgylchedd ynghyd mewn ffordd gytbwys ac integredig, er mwyn gwireddu buddiannau i'r bobl, yr amgylchedd a'r economi”

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cyfle i wneud sylw ar yr ymgynghoriad hwn ac yn edrych ymlaen at chwarae rhan bellach yng ngham 2 o ddiwygio'r cwricwlwm. Ein nod yw tanlinellu pwysigrwydd rheoli adnoddau naturiol, yr angen i wneud yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy yn yr ystyr ehangaf yn rhan annatod o'r cwricwlwm a phwysigrwydd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ym mhob cyfnod allweddol.

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno y dylai'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen a Chymraeg, Saesneg a mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 2–4 fod yn seiliedig ar ddisgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn i ategu'r FfLIRh?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Dim sylw

Cwestiwn 2 – A ydych yn cytuno y dylid ymestyn y FfLIRh i gynnwys materion llythrennedd a rhifedd newydd yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 i 4 oed?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

<p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno â'r cynnig cyn belled â bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod "yn bendant wedi ymrwymo i'r egwyddorion, yr addysgeg a'r arferion sy'n sail" i'r Cyfnod Sylfaen. Gellir cefnogi estyniad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i gynnwys llythrennedd a rhifedd newydd yn y Cyfnod Sylfaen trwy ddysgu a chwarae yn yr amgylchedd naturiol ac ni ddylid cyfyngu ar y mynediad cyfartal at yr awyr agored ac amgylcheddau dan do a ganiateir o fewn y Cyfnod Sylfaen.</p> <p>Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru o blaid cynnig cyfleoedd pellach i ymarferwyr Cyfnod Sylfaen dderbyn hyfforddiant mewn darparu llythrennedd a rhifedd yn yr awyr agored, ynghyd ag adolygiad o Becyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen – Modiwl 6 – <i>Dysgu yn yr Awyr Agored</i>, i gefnogi hyn. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n hapus i gefnogi a hwyluso'r gwaith yma. (Cyfrannodd CNC at ysgrifennu'r pecyn gwreiddiol trwy Dîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu y Comisiwn Coedwigaeth gynt.)</p>
--

Cwestiwn 3 – A ydych yn cytuno mewn egwyddor y dylai 'sgiliau ehangach' ddod yn elfennau statudol o'r cwricwlwm cenedlaethol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno mewn egwyddor y dylai "sgiliau ehangach" ddod yn elfennau statudol o'r cwricwlwm cenedlaethol, er ein bod yn cydnabod bod llawer o athrawon da eisoes yn cyflawni'r sgiliau hyn heb fod angen statws statudol. Gallai'r sgiliau ehangach a awgrymir gael eu darparu drwy brofiadau dysgu ymarferol, perthnasol i fywyd go iawn, a gellid gwneud hynny'n hawdd yn yr amgylchedd naturiol lleol a thrwy brofiadau dysgu ehangach y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gall y profiadau hyn ddigwydd drwy ddysgu mewn unrhyw bwnc (yn aml trwy chwarae) yn yr amgylchedd naturiol pan fydd plant yn ifanc, neu ddysgu ynglŷn â phynciau biolegol a daearyddol penodol gan gynnwys rheoli adnoddau naturiol, a hynny'n arwain at ddewisiadau gyrfa pan fyddant yn hŷn.

Darganfu adolygiad gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg a Choleg y Brenin Llundain dystiolaeth sylweddol bod gwaith maes a dysgu y tu allan i'r dosbarth, cyn belled â'u bod yn cael eu llunio'n gywir, eu cynllunio'n ddigonol, eu dysgu'n dda a'u dilyn yn effeithiol, nid yn unig yn gwella gwybodaeth disgyblion ond yn dysgu sgiliau sy'n ychwanegu at werth eu profiadau bob dydd yn yr ystafell ddosbarth.

Mae gan ddysgu y tu allan i'r dosbarth a dysgu seiliedig yn yr amgylchedd ran sylweddol i'w chwarae o ran cefnogi'r sgiliau ehangach hyn a fydd yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i Gymru ddatblygu ei dulliau o reoli adnoddau naturiol. Gallai cynnwys y sgiliau hyn yn y cwricwlwm ehangach helpu i gefnogi defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru yn y dyfodol.

Cwestiwn 4 – A ydych yn cytuno y dylai'r sgiliau hyn gynnwys meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesi, effeithiolrwydd personol a llythrennedd ddigidol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu ychwanegu'r sgiliau ehangach a ddisgrifir a gallwn weld manteision "fframwaith sgiliau ehangach" ar draws y cwricwlwm er mwyn datblygu sgiliau "sydd eu hangen ar gyfer addysg, cymwysterau, gwaith a bywyd". Mae'r mathau arfaethedig o sgiliau a gynigir yn ymddangos yn gynhwysfawr, ond dylid cydnabod bod rhai'n bwysicach ac yn haws eu datblygu ar oedrannau penodol e.e. creadigrwydd mewn plant ifanc trwy ddysgu trwy chwarae a chynllunio a threfnu mewn plant hŷn trwy brosiectau a phrofiadau dysgu ymarferol.

Gall dysgu amgylcheddol a dysgu y tu allan i'r dosbarth, a defnyddio'r amgylchedd naturiol fel lle i ddysgu ynddo a dysgu amdano hybu datblygiad y sgiliau hyn yn fawr. Fel yng nghwestiwn 3, bydd y sgiliau hyn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i Gymru ddatblygu ei dulliau o reoli adnoddau naturiol. Gall defnyddio ystadegau a data, canfod peryglon, cynyddu cyfleoedd ar gyfer gwaith maes ac arbrofi i gyd ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygu'r sgiliau ehangach hyn a all helpu i gefnogi defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol yn y dyfodol.

Gall llawer o elfennau'r cwricwlwm Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang presennol hefyd helpu i ddatblygu'r sgiliau ehangach hyn yn

ogystal â chefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd. Mae cymorth i athrawon yn hanfodol: hyfforddiant pellach, cyfleoedd i rannu arferion da a'r cyfle i nodi pynciau yn y cwricwlwm presennol sy'n addas ar gyfer datblygu sgiliau ehangach yw'r prif flaenoriaethau. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i gefnogi gwaith yn y maes hwn, sydd hefyd yn berthnasol i'r syniadau y mae'r Llywodraeth yn eu mynegi wrth ddatblygu Bil Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil yr Amgylchedd.

Cwestiwn 5 – A ydych yn cytuno y dylai ysgolion adrodd ar gynnydd mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu/Datblygiad Mathemategol neu Gymraeg, Saesneg a mathemateg – gan gynnwys llythrennedd a rhifedd yn unol â'r diffiniad yn y FfLIRh, i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a Llywodraeth Cymru ar ddiwedd pob cyfnod addysgol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Fel corff amgylcheddol nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n dymuno mynegi barn o blaid nac yn erbyn cyflwyno adroddiadau pellach. Fodd bynnag, byddai'n synhwyrol cadw unrhyw waith papur a gweithdrefnau adrodd ayb. i'r lleiafswm posib, a'u hymgorffori o fewn gweithdrefnau adrodd sydd eisoes yn bodoli lle bo hynny'n bosib, er mwyn "rheoli a lleihau" y baich gwaith asesu.

Cwestiwn 6 – A ydych yn cytuno y dylai ysgolion barhau i asesu ar ddiwedd cyfnod ar Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, yn ogystal â darparu adroddiad ar y meysydd hynny?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cydnabod pwysigrwydd Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol sy'n benodol i'r Cyfnod Sylfaen a hoffem danlinellu pwysigrwydd gweithgareddau a phrofiadau dysgu awyr agored i gefnogi Datblygiad Personol a Chymdeithasol a Lles yn benodol, gan gynnwys datblygu cynaliadwy a materion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd. Mae dysgu awyr agored yn ystod y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae hyfforddi nifer o athrawon fel Arweinwyr Ysgolion Coedwig wedi rhoi'r profiad, yr hyder a'r gallu sydd eu hangen arnynt er mwyn asesu gwelliannau mewn ABCh a Lles, yn ogystal â phynciau eraill, yn yr awyr agored. Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru weld pwyslais tebyg ar ddysgu yn, ac ynghylch, yr amgylchedd naturiol trwy bob cyfnod allweddol. Rydym yn cytuno y dylai ysgolion barhau i ymgymryd ag asesiadau ar ddiwedd pob cyfnod ac adrodd arnynt, er ein bod hefyd yn cydnabod y dylai'r holl

weithdrefnau adrodd sydd eisoes yn bodoli gael eu "rheoli a'u lleihau".

Cwestiwn 7 – A ydych yn cytuno y dylid cynnwys tasgau dysgu cyfoethog fel rhan o fodel asesu cyffredinol ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 2?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwbl gefnogol i gynnwys tasgau dysgu cyfoethog fel rhan o'r model asesu cyffredinol ar gyfer diwedd CA2. Gall dysgu y tu allan i'r dosbarth ddarparu llawer o dasgau o'r fath sydd yn "werthfawr a defnyddiol yn y byd real", gan annog datrys problemau, meddwl a rhesymu hyblyg a chysylltiad â'r "byd y tu hwnt i'r dosbarth". Gall tasgau dysgu cyfoethog a gynhelir yn yr amgylchedd naturiol hefyd gynnig cyfle i lwyddo i'r disgyblion hynny nad ydynt yn cyflawni gystal o fewn amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Gall hefyd helpu i gynnig ystod ehangach o brofiadau a fydd yn help i ddewis gyrfa yn ddiweddarach mewn bywyd.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i helpu i ddatblygu a darparu rhai o'r tasgau dysgu cyfoethog hyn. Mae llawer o botensial yn perthyn i dasgau sy'n seiliedig ar reoli adnoddau naturiol, a gall Cyfoeth Naturiol Cymru gynnig ystod eang o weithgareddau ar draws ein cylch gwaith. Yn ogystal, gellir cyflenwi tasgau dysgu cyfoethog trwy lwybrau llythrennedd a rhifedd sydd eisoes wedi eu sefydlu ar dir sy'n berchen i ni a safleoedd dysgu awyr agored eraill; gall hyn gynnig sesiynau ar gyfer disgyblion ac athrawon ar bob pwnc yn y cwricwlwm a rheoli adnoddau naturiol. Yn yr un modd, gellid cynnig cefnogaeth i ddatblygu tasgau ar safleoedd sy'n agos at ysgolion a sefydliadau ac yn hygyrch.

Cwestiwn 8 – A ydych yn cytuno â'r argymhellion ein bod yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cadw'r gofyniad i roi i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 asesiad cyfunol o gynnydd yn y rhaglenni astudio Cymraeg, Saesneg a mathemateg newydd, gwyddoniaeth a Chymraeg ail iaith ac yn dileu'r gofyniad i roi i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 asesiad o gynnydd ym mhob un o'r pynciau sylfaen statudol eraill?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o blaid lleihau a symleiddio'r prosesau adrodd ac yn falch o weld y bydd gwyddoniaeth yn cael ei gadw, ond yn siomedig o weld y bydd daearyddiaeth yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr graidd. Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru

weld y pwnc yma'n cael ei gynnwys ynghyd â gwyddoniaeth, gan adlewyrchu gwaith Llywodraeth Cymru yn datblygu'i dulliau o reoli adnoddau naturiol. O fewn y maes llafur daearyddiaeth presennol y cyflenwir y rhan fwyaf o gysylltiadau at waith yn ymwneud â dysgu am ynni adnewyddadwy a rheoli peryglon afonydd, arfordiroedd a llifogydd – agweddau o reoli adnoddau naturiol sy'n dod yn fwyfwy pwysig.

Cwestiwn 9 – Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, a ydych yn cytuno ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno newidiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o blaid gweithredu fesul cam a chyflwyno unrhyw newidiadau yn raddol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu deall a'u gweithredu'n drylwyr. Hoffem bwysleisio eto bwysigrwydd hyfforddiant addas a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff sy'n cyflwyno'r newidiadau a chynnig ein cymorth eto ym maes dysgu amgylcheddol a dysgu y tu allan i'r dosbarth.

Cwestiwn 10 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

1. Fel y crybwyllwyd uchod, nid oes llawer o sôn am hyfforddiant ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol, athrawon dan hyfforddiant nac arolygwyr ESTYN trwy'r ddogfen gyfan; gydag unrhyw newid mae hyn yn nodwedd hanfodol i sicrhau llwyddiant. Cyfrannodd Cyfoeth Naturiol Cymru (trwy Dîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu y Comisiwn Coedwigaeth) at gyflwyno a hyfforddi ar gyfer Modiwl 6 o Becyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen – Dysgu yn yr Awyr Agored a byddem yn falch o gefnogi unrhyw hyfforddiant pellach ym maes rheoli adnoddau naturiol a dysgu awyr agored sydd ei angen ar gyfer unrhyw gyfnod allweddol. Byddai cylch gwaith eang Cyfoeth Naturiol Cymru yn galluogi mewnbwn eang iawn i'r rhaglenni.
2. Teimlwn ei bod hefyd yn bwysig sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm yn cael eu hadlewyrchu mewn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Unwaith eto, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn falch o weithio gyda Llywodraeth Cymru ac Addysg Uwch i ddatblygu'r rhaglenni hyn.
3. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ynghlŷn â rhannu tystiolaeth a data er mwyn targedu a blaenoriaethu cymorth yn ofodol at yr ardaloedd hynny lle mae'r angen mwyaf am help i godi safonau a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

4. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i gynorthwyo ar Gam 2 adolygu'r cwricwlwm. Yn arbennig, mae'n awyddus i helpu i ddatblygu agweddau cynaliadwyedd a rheoli adnoddau naturiol y cwricwlwm a gwneud yr amgylchedd a dysgu y tu allan i'r dosbarth yn rhannau annatod o bob elfen o'r cwricwlwm er mwyn sicrhau y bydd ein hadnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy yn y dyfodol.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: